Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

GwerthwchiGymru

# Canllaw i Brynwyr – ESPD

## Cynnwys


Cyflwyniad ........ 2
Actifadu eich cyfrif ESPD a Lefelau Mynediad Defnyddwyr ........ 2
Agor y modiwl ESPD ........ 5
Creu Cais ESPD ........ 7
Cysylltu cais ESPD â Hysbysiad Contract ........ 13
Golygu Cais ESPD ........ 14
Agor Ymatebion ESPD ........ 15
Gofyn am Dystiolaeth ........ 17
Rhagor o wybodaeth ........ 19


Noder – Bwriad y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth ymarferol ac arweiniad i ddefnyddwyr y modiwl ESPD o fewn GwerthwchiGymru. Tybir bod defnyddwyr yn weithwyr caffael proffesiynol sydd â'r wybodaeth a'r awdurdod i gyflawni'r gweithdrefnau perthnasol. Nid yw'n cymryd lle cyngor cyfreithiol neu gyngor polisi, felly cynghorir defnyddwyr i geisio cyngor o'r fath os oes ganddynt unrhyw ymholiadau am y prosesau a'r gweithdrefnau a ddisgrifir.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn ar gyfer prynwyr sy'n creu ac yn cyhoeddi ceisiadau ESPD electronig gan ddefnyddio'r modiwl ESPD ar-lein o fewn GwerthwchiGymru. Nid yw'r canllaw hwn yn gymwys i ESPDs a gyhoeddir drwy ddull arall, megis atodiadau Word, neu drwy Bravo Solutions.

Mae canllawiau arfer gorau ar y broses dethol cyflenwyr, gan gynnwys creu ESPDs, ar gael yn Holiadur Dethol Safonol Gwasanaeth Masnachol y Goron:

**Holiadur Dethol Safonol** (Saesneg yn unig)

Prif nodweddion modiwl ESPD yw:

- Mae'n dilyn proses hawdd ei defnyddio sy'n eich galluogi i ddewis cwestiynau sy'n gymesur ac yn berthnasol i'ch ymarfer caffael, yn eich barn chi, i'w cynnwys yn eich cais ESPD.

- Mae'n eich galluogi i greu cais ESPD "hunangynhwysol", sy'n golygu y gallwch gynnwys eich meini prawf dethol wrth ochr y cwestiwn perthnasol yn yr ESPD ei hun. Mae hyn yn golygu nad oes angen i chi gynnwys eich meini prawf dethol yn yr hysbysiad contract mwyach ac y gallwch gyfeirio cyflenwyr at yr ESPD yn lle hynny.


- Mae'n galluogi cyflenwyr i gwblhau ymatebion ESPD yn electronig ac ailddefnyddio ymatebion ESPD blaenorol. Yna, gall cyflenwyr gyflwyno hyn i chi gan ddefnyddio'r blwch post presennol.

- Mae'n eich galluogi i ofyn am brawf neu dystiolaeth berthnasol yn electronig.

# Actifadu cyfrif ESPD eich sefydliad a Lefelau Mynediad Defnyddwyr

Rhaid i gyfrif ESPD y sefydliad prynu gael ei actifadu i ddechrau gan Reolwr/Gweinyddwr yn eich sefydliad.


I ddechrau, gall unrhyw un â lefelau mynediad "Rheolwr" ar gyfer eich sefydliad neilltuo mynediad ESPD. Dylai Rheolwyr ddewis y ddolen “ESPD” ar y panel Hysbysiadau ar Banel Rheoli'r Prynwr.




Y tro cyntaf y bydd y Rheolwr yn agor y modiwl, bydd gofyn iddo actifadu cyfrif ESPD ei sefydliad, drwy ddewis "Actifadu".

Yna, bydd y Rheolwr yn mynd i'r Panel Rheoli ESPD lle gall ychwanegu defnyddwyr eraill at y cyfrif.

Gellir rheoli Defnyddwyr gan ddefnyddio'r opsiwn "Rheoli Defnyddwyr" ar y Panel Rheoli ESPD.




Er mwyn ychwanegu defnyddiwr at y Cyfrif ESPD, bydd Rheolwr yn dewis "Ychwanegu Defnyddiwr".




Yna bydd y Rheolwr yn gweld rhestr o holl ddefnyddwyr ei sefydliad prynu ar GwerthwchiGymru a gall neilltuo mynediad ESPD i bob un drwy ddewis enw'r defnyddiwr.

Yna, bydd gofyn iddo neilltuo lefelau mynediad ESPD i'r defnyddiwr newydd. Yr opsiynau yw:


**Gweinyddwr** – yn galluogi defnyddiwr i greu a diwygio ceisiadau ESPD a neilltuo mynediad ESPD i ddefnyddwyr eraill.
**Golygydd** – yn galluogi defnyddiwr i greu a diwygio ceisiadau ESPD.
**Gwyliwr** – yn galluogi defnyddiwr i weld ceisiadau ESPD.

Dylai'r Rheolwr ddewis y lefel mynediad berthnasol ar gyfer y defnyddiwr hwnnw cyn dewis "Ychwanegu Defnyddiwr".


Yna bydd y defnyddiwr newydd yn gweld y ddolen "Modiwl ESPD" ar ei banel rheoli.

## Agor y modiwl ESPD

Er mwyn agor y modiwl ESPD, ewch i [Banel Rheoli'r Prynwr]() a dewiswch 'ESPD' o dan Hysbysiadau. Bydd hyn yn eich tywys i'ch modiwl ESPD. Dim ond defnyddwyr GwerthwchiGymru o fewn eich sefydliad all weld y modiwl hwn.



Bydd Panel Rheoli ESPD yn eich galluogi i Greu / Golygu eich ceisiadau ESPD a Rheoli Mynediad Defnyddwyr.




Mae'r wybodaeth ganlynol i'w gweld ar y panel rheoli:

**Rheoli Defnyddwyr**

Mae'r rhan hon yn dangos pob defnyddiwr sy'n gallu creu / golygu ceisiadau ESPD ar ran eich sefydliad ar hyn o bryd. Gall Rheolwyr ychwanegu defnyddwyr newydd drwy'r sgrin hon, a golygu manylion unrhyw ddefnyddwyr cyfredol. Ni fydd defnyddwyr nad ydynt wedi'u cofrestru ar y Modiwl ESPD yn gallu gweld y ddolen Modiwl ESPD ar eu Panel Rheoli.

**Gweld Ceisiadau**

Mae'r rhan hon yn rhestru'r holl geisiadau ESPD sydd wedi cael eu creu a'u cyhoeddi drwy broffil eich sefydliad. Mae'r rhestr yn dangos pwy greodd yr ESPD a ph'un a yw pob ESPD wedi cael ei gysylltu â Hysbysiad Contract, a'i fod wedi'i gloi, neu'n cael ei olygu o hyd.

Mae botwm llwybr byr hefyd i greu cais ESPD newydd.



Ceisiadau ESPD Prynwr

Mae'r tabl isod yn rhestru'r ceisiadau ESPD a grëwyd yn flaenorol ar gyfer eich Awdurdod. O'r fan hon, gallwch weld neu olygu ceisiadau sy'n bodoli eisoes, neu greu ESPD newydd (yn dibynnu ar ganiatâd).

Creu Cais

Show 10 entries | Search:

| Teitl | Dyddiad Creu | Crëwyd Gan | Hysbysiad |
|---|---|---|---|
| Test ESPD | 30/04/2018 | Anton Kossmann | |
| Test ESPD | 18/04/2018 | Anton Kossmann | |

# Creu Cais ESPD

**D.S. Rhaid i chi sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn yr ESPD yn cyd-fynd ag unrhyw wybodaeth rydych wedi'i chynnwys yn yr Hysbysiad Contract.**

Mae tri phrif gam i greu ESPD newydd a chaiff pob cam ei rannu'n adrannau perthnasol.

### Cam 1: Manylion Caffael

Mae tair adran i'r cam manylion. Mae clicio **NESAF** yn cadw'r adran bresennol ac yn eich tywys i'r adran nesaf.

**Manylion yr Awdurdod**

Caiff yr adran hon ei llenwi'n awtomatig yn seiliedig ar yr Awdurdod y gwnaethoch fewngofnodi iddo.

**Manylion y Cyhoeddiad**

Nid oes angen cwblhau'r wybodaeth hon ar y dechrau pan fyddwch yn creu eich ESPD; dylech ei chwblhau ar ôl i'ch hysbysiad contract gael ei gyhoeddi ar OJEU. Dylech gael e-bost yn eich hysbysu am hyn.


**Gweithdrefn Gaffael**

Mae angen rhoi'r wybodaeth berthnasol yn y meysydd *Teitl* a *Disgrifiad Byr*. Mae hefyd angen dewis math o weithdrefn o'r gwymplen. Dylid cofnodi gwybodaeth am Lotiau (teitlau yn unig) ar y cam hwn.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Cam 1: Manylion Caffael



Manylion yr Awdurdod | Manylion Cyhoeddiad | Gweithdrefn Gaffael

Gweithdrefn Gaffael

Nodwch y teitl a disgrifiad byr o'r weithdrefn gaffael ac, os yw'n briodol, nodwch eich cyfeirnod mewnol ar gyfer yr ymarfer caffael yn y maes 'rhif cyfeirnod y ffeil'.

* dynodi maes gofynnol.

Teitl *
Ffrwythau a Llysiau

Disgrifiad Byr *
Ffrwythau a Llysiau

Math o Weithdrefn
Open

Rhif Cyfeirnod y Ffeil

Nifer y Lotiau
2

Rhowch deitl byr i bob un o'ch lotiau

LOT 1
Ffrwythau

LOT 2
Llysiau

Blaenorol | Cadw a Gadael | Nesaf

**Cam 2: Manylion Caffael**

Mae Cam 2 wedi'i rannu'n 4 adran, pob un ohonynt â'i his-adran ei hun. Mae clicio **NESAF** yn cadw'r adran bresennol ac yn eich tywys i'r cwestiwn nesaf.

**Gweithdrefn**

**Codau CPV** – Defnyddiwch y bar chwilio i ddod o hyd i godau CPV sy'n cyd-fynd â'r Contract rydych yn ei gyhoeddi. Gallwch ddewis sawl cod CPV o'r rhestr ganlyniadau, yna cliciwch **Ychwanegu** i'w cysylltu â'ch dogfen.

**Gwybodaeth am Lotiau** – Wrth gwblhau'r sgrin hon, rhaid i chi sicrhau bod y wybodaeth yn gyson ag unrhyw wybodaeth am lotiau rydych wedi'i chynnwys yn yr Hysbysiad Contract.

**Gwybodaeth am y Cynigydd**

Caiff yr holl gwestiynau yn yr adran hon eu dewis yn awtomatig, ond gallwch hepgor unrhyw gwestiynau nad ydych am eu cynnwys yn eich cais ESPD.


**Gwneud Cynnig fel Grŵp/Gwybodaeth am Is-gontractwyr**

O dan system ESPD, dim ond un ddogfen ESPD y gall pob cynigydd ei chyflwyno. Os oes rhaid i'r cynigydd gyflwyno ymatebion ESPD ar ran sefydliadau eraill – megis is-gontractwyr, aelodau o gonsortia neu sefydliadau y bydd yn dibynnu arnynt i gyflawni'r contract – bydd gofyn iddo lawrlwytho'r ffeil ESPD ar fformat Excel a gofyn i'w sefydliadau partner gwblhau'r adrannau perthnasol a'i dychwelyd iddo all-lein. Yna dylai'r cynigydd atodi ymatebion ESPD ei bartneriaid fel dogfennau ychwanegol fel rhan o'i ymateb blwch post, a fydd yn cynnwys ei ymateb ESPD ei hun ar fformat electronig.

**Meini Prawf Eithrio**

Caiff yr holl gwestiynau yn yr adran hon eu dewis yn awtomatig, ond gallwch hepgor unrhyw gwestiynau nad ydych am eu cynnwys yn eich cais ESPD. Argymhellir yn gryf eich bod yn darllen y canllawiau ar feini prawf eithrio sydd ar gael gan Wasanaeth Masnachol y Goron cyn cwblhau'r adran hon.

**Holiadur Dethol Safonol** (Saesneg yn unig)




**Meini Prawf Dethol**

Ni chaiff unrhyw gwestiynau yn yr adran hon eu dewis yn awtomatig, felly bydd yn rhaid i chi ddewis unrhyw rai sy'n berthnasol i'ch ymarfer caffael yn eich barn chi.

Cwblhewch bob isadran gan ddewis y cwestiynau yr hoffech eu cynnwys yn eich cais ESPD.

Lle bo hynny'n berthnasol, gallwch gynnwys meini prawf dethol ochr yn ochr â'r cwestiynau rydych wedi dewis eu cynnwys yn eich cais ESPD, fel y gall unrhyw gynigwyr ddeall y gofynion sylfaenol neu'r meini prawf gofynnol sy'n benodol i'ch ymarfer caffael.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

### Cam 3: Gorffen

Mae'r adran **Crynodeb** yn rhoi trosolwg o'r holl wybodaeth a ddewiswyd gennych wrth greu eich ESPD.

## Creu ESPD

Cam 3: Gorffen — Ffrwythau a Llysiau

Blaenorol | Cadw a Gadael | Allforio XML | Allforio PDF | Allforio dogfen Word

Gallwch adolygu'r cais ESPD a grëwyd gennych. Os ydych am olygu eich cais ESPD, cliciwch ar y botwm "Previous" a fydd yn eich tywys drwy'r sgriniau creu ESPD.

Er mwyn cadw copi o'ch cais ESPD all-lein, cliciwch ar un o'r opsiynau allforio i'w lawrlwytho.

Ar ôl i chi orffen eich cais ESPD, cliciwch ar "Save and Exit" a byddwch yn cael dau opsiwn:

Bydd "Save Only" yn eich galluogi i ddychwelyd at eich cais ESPD a gwneud rhagor o newidiadau. Ni fyddwch yn gallu cysylltu eich cais ESPD â hysbysiad contract.

Bydd "Save and Lock" yn cloi'r cais ESPD, fel na ellir gwneud rhagor o ddiwygiadau. Pan fydd eich cais ESPD wedi'i gloi, bydd ar gael i'w gysylltu â'r hysbysiad contract cysylltiedig.

Summary | Concluding Statements

**Authority Details**

**Official Name:** Millstream Associates 1

**Country:**

**Notice Details**

**Procurement Procedure**

**Title:** Ffrwythau a Llysiau

**Short Decription:** Ffrwythau a Llysiau

**File Reference Number:**

**Criteria**

Gweithdrefn - Gwybodaeth am Lotiau

**[C63] Gofynion yn ymwneud â lotiau**
Rhowch ragor o wybodaeth am y lotiau yn y contract hwn.

Gweithdrefn - Codau CPV

**[C64] Codau CPV y Weithdrefn Gaffael**
Codau CPV y Weithdrefn Gaffael

Gwybodaeth am y Cynigydd - Gwybodaeth am y Cynigydd

Mae'r adran **Datganiadau Terfynol** yn tynnu sylw at y datganiad y mae'n rhaid i bob cyflenwr ei lofnodi'n electronig ar ôl cwblhau ymateb ESPD.

Cam 3: Gorffen

Ffrwythau a Llysiau

Blaenorol | Cadw a Gadael | Allforio XML | Allforio PDF | Allforio dogfen Word

Gallwch adolygu'r cais ESPD a grëwyd gennych. Os ydych am olygu eich cais ESPD, cliciwch ar y botwm "Previous" a fydd yn eich tywys drwy'r sgriniau creu ESPD.

Er mwyn cadw copi o'ch cais ESPD all-lein, cliciwch ar un o'r opsiynau allforio i'w lawrlwytho.

Ar ôl i chi orffen eich cais ESPD, cliciwch ar "Save and Exit" a byddwch yn cael dau opsiwn:

Bydd "Save Only" yn eich galluogi i ddychwelyd at eich cais ESPD a gwneud rhagor o newidiadau. Ni fyddwch yn gallu cysylltu eich cais ESPD â hysbysiad contract.

Bydd "Save and Lock" yn cloi'r cais ESPD, fel na ellir gwneud rhagor o ddiwygiadau. Pan fydd eich cais ESPD wedi'i gloi, bydd ar gael i'w gysylltu â'r hysbysiad contract cysylltiedig.

Summary | Concluding Statements

**Datganiadau cloi**

Mae'r rhai sydd wedi llofnodi isod yn datgan yn ffurfiol bod y wybodaeth a nodwyd yn gywir a'i bod wedi'i nodi ag ymwybyddiaeth lwyr o ganlyniadau camliwio difrifol.

Mae'r rhai sydd wedi llofnodi isod yn datgan yn ffurfiol y gallant, ar gais ac yn ddi-oed, ddarparu'r tystysgrifau a'r mathau eraill o dystiolaeth ddogfennol y cyfeiriwyd atynt, heblaw pan fydd hi'n bosibl i'r awdurdod contractio neu'r endid contractio gael y ddogfennaeth ategol dan sylw yn uniongyrchol drwy ddefnyddio cronfa ddata genedlaethol mewn unrhyw Aelod-wladwriaeth sydd ar gael am ddim. Ar yr amod bod y gweithredwr economaidd wedi darparu'r wybodaeth angenrheidiol (cyfeiriad gwe, awdurdod neu gorff dyroddi, union gyfeirnod y ddogfennaeth) gan alluogi'r awdurdod contractio neu'r endid contractio i wneud hynny. Pan fydd angen, rhaid hefyd gynnwys y cydsyniad perthnasol er mwyn cael mynediad o'r fath.


Mae'r rhai sydd wedi llofnodi isod yn cydsynio'n ffurfiol i'r awdurdod contractio gael mynediad i ddogfennau sy'n cefnogi'r wybodaeth, a ddarparwyd yn yr ymateb hwn mewn perthynas â'r Ddogfen Gaffael Sengl Ewropeaidd at ddibenion yr ymarfer caffael hwn.

Ar y cam hwn gallwch allforio eich dogfen ESPD i fformat *MS Word*, *XML* neu *PDF*.

Ar ôl i chi gwblhau eich ESPD, gallwch ei gadw i'w olygu nes ymlaen, neu gallwch ei **Gadw a'i Gloi**, a fydd yn eich galluogi i'w ychwanegu at Hysbysiad Contract.


# Cysylltu cais ESPD â Hysbysiad Contract

Gall cais ESPD gael ei gysylltu â Hysbysiad Contract pan gaiff yr hysbysiad ei greu. Pan fyddwch yn cyrraedd y cwestiwn *Opsiynau Ychwanegol*, gallwch ddewis cynnwys ESPD (Mae'n rhaid ei fod wedi'i gysylltu â Blwch Post gweithredol). Dewiswch y blwch ticio ESPD, yna dewiswch NESAF i symud sgrin.




Mae ticio'r blychau ticio hyn yn ychwanegu'r opsiwn i gysylltu eich cais ESPD â'r Hysbysiad. Gallwch ddewis o'r gwymplen ar y Cwestiwn 'ESPD' a chlicio **Ychwanegu**. (Noder mai dim ond ESPD sydd wedi'i Gadw a'i Gloi sy'n weladwy i'w ddewis).

Os nad oes gennych ESPD parod, gallwch ddewis creu ESPD o'r fan hon.




Ar ôl ei ychwanegu, gallwch barhau a chwblhau eich Hysbysiad Contract.

# Golygu Cais ESPD

Gellir golygu ESPD tan iddo gael ei atodi i Hysbysiad Contract. Er mwyn golygu ESPD, ewch i'r dudalen "Gweld Ceisiadau" gan ddefnyddio Panel Rheoli ESPD. Cliciwch ar Deitl yr ESPD dan sylw, a gallwch ei ddatgloi a'i olygu yn ôl yr angen.

**Ar ôl i ESPD gael ei atodi i Hysbysiad Contract, ni ellir ei olygu mwyach.**

Os gwelir gwallau mewn ESPD ar ôl iddo gael ei gysylltu â Hysbysiad Contract, mae'n rhaid i ddefnyddwyr gyhoeddi Hysbysiad Diwygio drwy wefan GwerthwchiGymru. Os oes sawl gwall yn yr ESPD neu wallau difrifol, argymhellir eich bod yn dechrau'r ymarfer caffael unwaith eto.

# Agor Ymatebion ESPD

Ar ôl dyddiad cau'r Hysbysiad, gallwch agor yr ymatebion ESPD drwy'r Blwch Post. Mae'r system yn cynhyrchu fersiwn PDF o'r ymateb ESPD yn awtomatig, ond bydd clicio ar Agor ESPD yn dangos y gyfres o Gwestiynau ac Atebion yn llawn, ac yn rhoi mwy o opsiynau i chi o ran lawrlwytho i fformatau amrywiol.

Argraffu

Cau

**Manylion yr Ymateb**

Rhif Adnabod yr Ymateb: 73487
Teitl: Ffrwythau a Llysiau
Crëwyd: 10/05/2018
Derbyniwyd: 10/05/2018 15:48
Lawrlwytho: **Lawrlwytho'r ymateb yn y blwch postio (Ffeil Sip)**

**Manylion Cyswllt**

Sefydliad: Millstream Associates
Enw cyswllt: Anton Kossmann
Adran:
Cyfeiriad: 10 Queens Road
Tref: Aberdeen
Cod Post: AB15 4ZT
Gwlad: United Kingdom (GB)
Ffôn: 01224 650 763
Ffacs:
Cyfeiriad E-bost: Anton@millstream.eu

**ESPD Response**

ESPD Response ID: 147ec420-5913-41d9-8a10-b6a2fba5222e
Issued Date: 10/05/2018
Issued By: Anton Kossmann

Open ESPD

**Dogfennau**

| Teitl y Ddogfen | Disgrifiad | Maint |
|---|---|---|
| ESPD-Response-147ec420-5913-41d9-8a10-b6a2fba5222e.pdf | ESPD Response - Ffrwythau a Llysiau | 188.50 KB |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Postbox ESPD Response - Ffrwythau a Llysiau

The details of the suppliers ESPD response is below. You can also download the response in different formats.

Return to Postbox

Export PDF

Export Word

Export Excel

Request Evidence

### Supplier Details

**Official Name:** Millstream Associates 1
**Country:**

### Notice Details

### Procurement Procedure

**Title:** Ffrwythau a Llysiau
**Short Decription:** Ffrwythau a Llysiau
**File Reference Number:**

### Criteria

***Gweithdrefn***
***Gwybodaeth am Lotiau***
**[C63] Gofynion yn ymwneud â lotiau**
Rhowch ragor o wybodaeth am y lotiau yn y contract hwn.
Nodwch pa lotiau rydych yn bwriadu cyflwyno cais amdanynt: **LOT 1**
***Gwybodaeth am y Cynigydd***
***Gwybodaeth am y Cynigydd***
**[2A1] Busnes Bach, Busnes Canolig neu Ficrofusnes**
A ydych yn fusnes bach, busnes canolig neu ficrofusnes ai peidio?
Eich Ateb: **No**
**[2A2] Busnes a Gynorthwyir**
Dosbarthiadau perthnasol (nodwch a ydych yn dod o dan un o'r rhain, ac os felly, pa un)
Menter Gymdeithasol, Cymunedol a Gwirfoddol (VCSE);
Gweithdy Gwarchodol;
Cwmni cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus

Eich ateb: **No**
**[2A3] Math o gyfranogi**
A ydych yn cyflwyno cais fel prif gyswllt grwp o weithredwyr economaidd?
Eich ateb: **No**
**[2A4] Is-gontractio**
A ydych chi neu, os yw'n gymwys, y grwp o weithredwyr economaidd yn bwriadu defnyddio is-gontractwyr?
Eich ateb: **No**
**[2A5] Ymuno â chofrestr broffesiynol berthnasol**
Os yw'n gymwys, a yw eich sefydliad wedi ymuno â'r gofrestr/cofrestrau proffesiynol neu fasnach priodol yr aelod-wladwriaeth lle mae wedi'i sefydlu?

## Gofyn am Dystiolaeth

Gall cyflenwyr ddarparu tystiolaeth ar-lein; os felly, bydd gwybodaeth yn yr ymateb ESPD yn eich tywys i'r wefan sy'n cynnwys y dystiolaeth hon.

Os na ddarperir tystiolaeth yn yr ymateb ESPD, gallwch ofyn am y dystiolaeth sydd ei hangen drwy'r Blwch Post Ymatebion ESPD, drwy glicio ar y botwm **Gofyn am Dystiolaeth**. Dewiswch pa Gwestiynau yr hoffech gael tystiolaeth yn eu cylch drwy roi tic yn y blychau ticio wrth ymyl pob cwestiwn perthnasol.

Ar ôl dewis y cwestiynau, cliciwch y botwm Gofyn am Dystiolaeth unwaith eto, dewiswch ddyddiad cau o'r blwch calendr sy'n ymddangos, a chaiff e-bost ei anfon at y Cyflenwr yn gofyn am y dystiolaeth berthnasol.

Bydd y Cyflenwr yn cyflwyno'r dystiolaeth drwy ffurflen ar-lein, a chaiff y Prynwr ei hysbysu ar ôl i'r dystiolaeth gael ei chyflwyno.

## ESPD Evidence - Ffrwythau a Llysiau

The details of the questions where the supplier has not fully completed response are below. Select the questions that you would like to request additional evidence from the supplier.

**Request Evidence**

### Supplier Details

**Official Name:** Millstream Associates 1
**Country:**

### Procurement Procedure

**Title:** Ffrwythau a Llysiau
**Short Decription:** Ffrwythau a Llysiau
**File Reference Number:**

### Criteria

### Gwahardd

*Seiliau dros Wahardd yn Orfodol*

☑ **[3A1f] Llafur plant a mathau eraill o fasnachu mewn pobl**
A yw'r cynigydd wedi cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd o dan adran 4 o Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr ac ati) 2004; trosedd o dan adran 59A o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003; trosedd o dan adran 71 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009; trosedd mewn cysylltiad ag arian sy'n deillio o fasnachu cyffuriau o fewn ystyr adran 49, 50 neu 51 o Ddeddf Masnachu Cyffuriau 1994; trosedd o dan adran 2 neu 4 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015
Eich ateb: **No**
A yw'r wybodaeth hon ar gael yn electronig?: **No**

☑ **[3A1f] Llafur plant a mathau eraill o fasnachu mewn pobl**
A yw'r cynigydd wedi cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd o dan adran 4 o Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr ac ati) 2004; trosedd o dan adran 59A o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003; trosedd o dan adran 71 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009; trosedd mewn cysylltiad ag arian sy'n deillio o fasnachu cyffuriau o fewn ystyr adran 49, 50 neu 51 o Ddeddf Masnachu Cyffuriau 1994; trosedd o dan adran 2 neu 4 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015
Eich ateb: **No**
A yw'r wybodaeth hon ar gael yn electronig?: **No**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr adnodd ESPD, cysylltwch â desg gymorth GwerthwchiGymru ar
0800 222 9004 neu help@sell2wales.gov.wales